EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

a gynhelir yn

Y NEUADD

Prynhawn a Nos Sadwrn, 12fed Ebrill 2025

Cyfarfod Prynhawn Sadwrn
Tâl Mynediad: £3.00 (Plant 50c)
Dechreuir am 12.30 o'r gloch**.**

Cyfarfod Nos Sadwrn
Tâl Mynediad: £4.00 (Plant 50c)
Dechreuir am 6.30 o'r gloch.

DECHREUIR Y DDAU GYFARFOD YN BRYDLON.

EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO

Llywydd y Dydd:
Dafydd Owen, Mynytho

Arweinyddion:
Netta Pritchard
Gwilym Jones

Beirniaid:
Cerdd a Cherdd Dant: Robat Arwyn, Rhuthun
Llefaru a Rhyddiaith: Siân Mair Williams, Felinheli
Barddoniaeth: Y Prifardd Llion Jones, Bangor
Arlunio a Gwaith Llaw: Sioned Medi, Nefyn

Cyfeilydd:
Olwen Jones, Bangor

Swyddogion y Pwyllgor:
Cadeirydd: Mrs Fflur Rees Jones, 'China'
Is-Gadeirydd: Mr Gwilym Roberts, Tŷ Newydd, Llaniestyn
Trysorydd: Mrs Siân Thomas, Gwynfa
Is-Drysorydd: Glenys Williams, 4 Cae Arfryn
Ysgrifennydd: Mr Dilwyn Thomas, Meifod, Mynytho, Pwllheli, Gwynedd LL53 7RH
Ffôn: (01758) 740704 Symudol: 07979 733123
e-bost: dilwyn465@btinternet.com

RHESTR TESTUNAU

LLENYDDIAETH

1. Blwyddyn Derbyn ac 1: Llun a Brawddeg. Gwobr: Medal a £7 i'w rhannu.
2. Blwyddyn 2: Llun a Paragraff: Amser Chwarae. Gwobr: Medal a £8 i'w rhannu.
3. Blwyddyn 3 a 4: Stori – Mynd ar Wyliau. Gwobr: Medal a £9 i'w rhannu.
4. Blwyddyn 5 a 6: Stori neu Barddoniaeth – Ffrindiau. Gwobr: Medal a £12 i'w rhannu.
5. Dan 16 oed: Darn o farddoniaeth: Testun agored. Gwobr: £15 i'w rhannu.
6. Dan 16 oed: Darn o ryddiaith: Testun agored. Gwobr: £15 i'w rhannu.
7. Dan 19 oed: Rhyddiaith – 'Gwreichion'. Gwobr: Tlws (rhoddedig gan Mrs Ann Jones er cof am ei phriod, Thomas W. Jones) a £12.
8. Dan 25 oed: Rhyddiaith – 'Gorwel'. Gwobr: Tlws y Prifardd (rhoddedig gan deulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones).
9. Cyfansoddi Darn Llefaru i blant dan 6 oed. Gwobr: £20 (rhoddedig er cof am y ddiweddar Heulwen M. Thomas, Meifod). (Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi'r cynnyrch buddugol.)
10. Emyn i ddathlu derbyn swydd newydd. Gwobr: £10.
11. Cywydd, heb fod dros ugain llinell, 'Y Fflam'. Gwobr: £10.
12. Soned, 'Gylfinir'. Gwobr: £10.
13. Telyneg, 'Cofio'. Gwobr: £10.
14. Englyn, 'Ein bro'. Gwobr: £10 (rhoddedig er cof am y diweddar Sam Jones).
15. Englyn Ysgafn, 'Deg o elyrch gwynion'. Gwobr: £10 (rhoddedig er cof am y diweddar Sam Jones).
16. Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 100 llinell, 'Ffe nestri'. Gwobr: Cadair yr Eisteddfod (model) a £30.
17. Rhyddiaith: Ysgrif – 'Enfys'. Gwobr: Tlws (rhoddedig) i'w gadw am flwyddyn a £15.

Cynhelir Seremoni Tlws y Prifardd a Seremoni'r Cadeirio yng nghyfarfod nos Sadwrn. Cenir Cân y Cadeirio gan Mrs Carol Pugh, Botwnnog a chenir y Corn Gwlad gan Rhys Evans, Y Ffôr. Y Gadair o waith Miriam Jones, Penmorfa, Llanengan.
Beirniadaethau 1-6 prynhawn Sadwrn.
Beirniadaethau 7-17 nos Sadwrn.

Rhestr Testunau ar gael yn gyflawn ar www.steddfota.cymru

1. I bob oed: Cyfansoddi cân ar eiriau'r Darnau Llefaru buddugol yn Eisteddfod 2024. Gwobr: £12. (Beirniadaeth nos Sadwrn.)

Y Ci Bach

Fe fues i yn begian
Ar Dad i brynu ci,
Ond "Na wnaf!" oedd yr ateb
Bob tro a gefais i.

Ond yna, fore 'Dolig
Beth gerddodd mewn drwy'r drws
Ond ci bach blewog, heini,
Un brown a hynod dlws.

Ond dwi'n cael fawr o gyfle
I chwarae gyda'r ci,
Waeth Dad sy'n ei faldodi
Drwy'r amser, coeliwch fi!

John Meurig Edwards, Aberhonddu

Y Bws

Mi gefais fws yn anrheg
Gan Modryb Ann Bryn Mân,
Ac o y mae yn bictiwr
Mewn lliw sydd goch fel tân.

Mi roddaf reid i tedi,
A doli fach gaiff le,
A phwsi ddu fydd yno,
Pan af â hwy i'r dre'.

Myfi fy hun yw'r gyrrwr,
'R wyf fi yn fachgen mawr,
Maent oll yn awr yn barod,
Bip-bip, bap-bap, hwyl fawr.

Megan Richards, Aberaeron

ARLUNIO

(unrhyw gyfrwng)

1. Meithrin a Derbyn: Bwyd. Gwobr: £7.
2. Blwyddyn 1 a 2: Siopa. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Fy hoff le. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Blodau gwyllt. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Atgofion. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Symud. Gwobr: Cwpan (rhoddedig er cof am Gwynfor Ellis) a £12.

GWAITH LLAW

(unrhyw gyfrwng)

1. Meithrin a Derbyn: Yn yr Ardd. Gwobr: £7
2. Blwyddyn 1 a 2: Y Gofod. Gwobr: £8.
3. Blwyddyn 3 a 4: Adar. Gwobr: £9.
4. Blwyddyn 5 a 6: Casglu. Gwobr: £10.
5. Blwyddyn 7, 8, 9 a 10: Perthyn. Gwobr: £11.
6. I bob oed: Gobaith. Gwobr: £12.

CYFARFOD PRYNHAWN SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r cystadlaethau Canu a Llefaru dan 6 oed.

CERDDORIAETH

1. Unawd dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1. Medal a £4; 2, £3; 3, £2.
2. Unawd dan 6 oed (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): Unrhyw. Gwobr: 1. Medal a £4; 2, £3; 3, £2.
3. Unawd Bl. 2 ac iau: 'Y Lili Wen Fach', Daniel Protheroe. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Cenir yn C fwyaf gyda chyfeiliant arbennig ar gyfer Eisteddfod Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025. Gwobr: 1. Medal a £4.50; 2, £3.50; 3, £3.
4. Unawd Bl. 3 a 4: 'Hufen Iâ', Beti Rhys. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Gwobr: 1. Medal a £5; 2, £4; 3, £3.
5. Unawd Bl. 5 a 6: 'Y Gwanwyn', Rhys Jones, allan o 'Tŷ Cerdd'. Cywair: G fwyaf (D#E'). Cywair: F fwyaf (C#D'). Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
6. Unawd Piano Bl. 6 ac iau: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 3 munud. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
7. Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau; 'Y Fasged Wyau'. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
8. Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £6; 2, £4; 3, £3.
9. Deuawd Bl. 6 ac iau: 'Lluniau'r Tymhorau', Leah Owen, allan o 'Codi'r To' (Curiad) 1077. Caiff y soprano ddewis naill ai'r F neu'r C yn y bar olaf. Gwobr: £16 i'w rhannu.
10. Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: 'Yr Esgus Perffaith', Ceri Wyn Jones, allan o 'Dwli o Ddifri' (Y Lolfa). Cainc: 'Mallt y Nos', Owain Siôn (112), allan o 'Ceinciau Penyberth', Urdd Gobaith Cymru. Gwobr: £16 i'w rhannu.
11. Parti Bl. 6 ac iau (Adrannau). Dim mwy na 12 mewn nifer: 'Llangrannog', Ann Bowen Thomas, allan o 'Byddwch Lawen' (Cyhoeddiadau Sain); neu i Ysgolion Cynradd hyd at 50 o blant: Parti Unsain. Dim mwy na 12 mewn nifer: 'Molwn Ef am Gymru', A.C. Rouse, allan o 'Mwy o Glap a Chân' (Y Lolfa). Cenir pennill 1 a 3 yn unig. Gwobr: £20.
12. Unawd Merched Bl. 7, 8 a 9: 'Gwisgoedd Nef', ('He Wishes for the Cloths of Heaven'), Karl Jenkins, Boosey & Hawkes (11220). Geiriau Cymraeg: Meredydd Evans. Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Cywair: A fwyaf (C#E') B & H 11220. Cywair F fwyaf (A#C'). Copi F fwyaf ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £12; 2, £10; 3, £8.
13. Unawd Bechgyn Bl. 7, 8 a 9: 'Nant y Mynydd', D. Vaughan Thomas (Snell a'i Feibion). Cywair F fwyaf (E#E'). Cywair: E♭ fwyaf (D#D'). Cywair: D fwyaf (C#C'). Copi

D fwyaf ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal â lleisiau sydd wedi torri.

Gwobr: 1, Cwpan a £12; 2, £10; 3, £8.

14. Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Cân yr Afan', Cleif Harpwood. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Cainc: 'Tŷ'n Ffridd', Einir Wyn Jones (11222), allan o 'Ceinciau'r Heli' (Cyhoeddiadau Sain). Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am Guto ac Enid Jones, Egryn, Parciau, Mynytho) a £12; 2, £10; 3, £8.

15. Unawd Piano Bl. 7, 8 a 9: Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 5 munud.

Gwobr: 1, Cwpan a £12; 2, £10; 3, £8.

16. Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Torth o Fara', allan o 'Caneuon Gwerin i Blant' (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru). I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol.

Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £12; 2, £10; 3, £8.

17. Deuawd Bl. 7, 8 a 9: 'Ffarwel i'r Gwynt a'r Eira', W. Rhys-Herbert. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Gwobr £20.

18. Deuawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 'Hapus', Nesta Wyn Jones. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Cainc: 'Cae Steel', Owain Siôn (122), allan o 'Ceinciau Llwyndyrus' (Cyhoeddiadau Sain). Gwobr: £20.

LLEFARU

1. Dan 6 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3, £2.

2. Dan 6 oed (cyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Foel Gron): 'Y Ci Bach', John Meurig Edwards (tud 3) , neu 'Y Bws', Megan Richards (tud 3)
Gwobr: 1, Medal a £4; 2, £3; 3. £2.

3. Unigol Bl. 2 ac iau: 'Cwyn y ci', Ceri Wyn Jones, allan o 'Dwli o Ddifri' (Y Lolfa). Gwobr: 1, Medal a £4.50; 2, £3.50; 3, £3.

4. Unigol Bl. 3 a 4: 'Mae'r byd, fel mae, yn well', Mererid Hopwood, allan o 'Byd Llawn Hud' (Y Lolfa). Gwobr: 1, Medal a £5; 2, £4; 3, £3.

5. Unigol Bl. 5 a 6: ''Rwy'n gwybod', Meirion MacIntyre Huws. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn. Gwobr: 1, £6; 2, £4; 3, £3.

6. Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau (6-12 mewn nifer): 'Pen i Waered', Dewi Pws, allan o 'Wps!' (Y Lolfa), neu i Adrannau (6-12 mewn nifer): 'Ni yw'r Deinosoriaid', Casia Wiliam, allan o 'Clywch ni'n rhuo nawr' (Gwasg Carreg Gwalch). Ni chaniateir addasu'r dafodiaith yma. Gwobr: £20.

7. Unigol Bl. 7, 8 a 9: 'Draig Wen, Draig Goch', Myrddin ap Dafydd. Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Glan-llyn. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £12; 2, £10; 3, £8.

8. I bob oed: Cystadleuaeth ''Sgen ti dalent?'. (Gweler y manylion yn rhestr cystadlaethau nos Sadwrn.) Gwobr: £50 – i'w rannu yn ôl dymuniad y Beirniad.

CYFARFOD NOS SADWRN

Dechreuir y cyfarfod gyda'r gystadleuaeth Unawd Bl. 10 a dan 19 oed.

Y cystadleuwyr yng nghystadleuaeth rhif 8 i drafod eu dewisiadau gyda'r Cyfeilydd ychydig ddyddiau cyn yr Eisteddfod.

Ffôn (01248) 353534 neu 07771 791078 – olwenpiano1@gmail.com

CERDDORIAETH

1. Unawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw.
   Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £14; 2, £12; 3. £8.
2. Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Tlws (rhoddedig er cof am y diweddar John R. Thomas, Meifod) a £14.
3. Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed: Hunan-ddewisiad heb fod yn fwy na 7 munud. Gwobr: 1, Cwpan Coffa Eiluned Douglas-Williams (i'w gadw am flwyddyn) a £14; 2, £12; 3, £8.
4. Dan 19 oed: Canu unrhyw offeryn heblaw'r piano: Unrhyw.
   Gwobr: 1, Cwpan a £14; 2, £12; 3, £8.
5. Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24.
6. Deuawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: £24.
7. Unawd dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w gadw am flwyddyn (rhoddedig er cof am Humphrey Jones, Hafod-y-Grug) ac £16; 2, £14; 3, £12.
8. Unawd allan o Sioe Gerdd dan 25 oed: Hunan-ddewisiad. Dim hwy na 5 munud. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig er cof am John Elwyn Parry, Coed-y-Fron) ac £16; 2, £12; 3, £10.
9. Unawd Agored: Canu Unrhyw Emyn. Gwobr: 1, Cwpan (i'w gadw am flwyddyn) er cof am y ddiweddar Katie Williams, Maesteg, Llanbedrog, ac £20; 2, £15; 3, £10.
10. Cân Werin Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (er cof am y diweddar Einion P. Jones, a fu'n Drysorydd yr Eisteddfod) ac £16; 2, £12, 3, £10.
11. Unawd Cerdd Dant Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan i'w ddal am flwyddyn (er cof am y diweddar Carys Jones, Awel-y-Mynydd) ac £16; 2, £12; 3, £10.
12. Unawd Gymraeg Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan, i'w ddal am flwyddyn (rhoddedig er cof am y ddiweddar Katie Wyn Jones gan y teulu) ac £20; 2, £16; 3, £12.
13. Her Unawd: Unrhyw unawd o gyfanwaith (Opera/Oratorio). Gweler Amod 5. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig gan deulu 18 Bryn Adda, Bangor, er cof am y ddiweddar Catherine Rhianwen Jones) ac £20; 2, £16; 3, £12.
14. Deuawd Agored: Unrhyw. Gwobr: £26.
15. Parti Unsain neu Ddeulais: Unrhyw. Gwobr: £35.

16. Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2024-2025. Unrhyw gyfuniad o leisiau, heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunan-ddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro/Gymraes. Gellid hefyd ddefnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro/Gymraes. Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng 1af Mai 2024 a 1af Mai 2025 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025. Gwobr: 1, Cwpan a £70; 2, £50. (Y cwpan i'w ennill dair gwaith yn olynol neu bedair gwaith i gyd.)

LLEFARU

1. Unigol Bl. 10 a dan 19 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) a £14; 2, £12; 3, £10.
2. Unigol dan 25 oed: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan (rhoddedig) ac £16; 2, £14; 3, £12.
3. Prif Gystadleuaeth Llefaru: Unrhyw. Gwobr: 1, Cwpan ac £20; 2, £16; 3, £14.
4. Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Cystadleuaeth Perfformio 2024-25: Mewn Cymeriad – hyd at 5 munud, wedi ei seilio ar ddewis o sgriptiau. Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru. Oed: 16-25. Sgriptiau ar gael ar www.steddfota.cymru Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2024 a Mai 2025 yn rhoddi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025. Gwobr: 1, £20; 2, £15; 3, £10.
5. Grŵp Agored: Unrhyw. Gwobr: 1, Tarian i'w chadw am flwyddyn (rhoddedig) a £70; 2, £50.

I bob oed: Cystadleuaeth "Sgen ti dalent?'. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa. (Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw cystadleuwyr yn dymuno defnyddio offer.) Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith. Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall, e.e. Cân o Sioe Gerdd. Gwobr: £50 – i'w rannu yn ôl dymuniad y Beirniaid.

AMODAU

1. Bydd gan y Beirniaid hawl i atal, rhannu neu gwtogi gwobrau.
2. Rhaid i bawb a fydd yn cystadlu ar destunau yr Urdd fod yn yr oedran priodol ar y dydd olaf o Awst 2025, a'r holl gystadleuwyr eraill i fod yn yr oedran priodol ddydd yr Eisteddfod. Ni chaniateir cystadlu ond mewn dosbarth sy'n cyfateb i oedran y cystadleuydd, ac ni ddylid defnyddio'r un darn mewn dwy gystadleuaeth wahanol.
3. Ceidw y Pwyllgor hawl i fynnu prawf o ddilysrwydd unrhyw gystadleuydd.
4. **Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i'r Beirniad a'r Cyfeilydd ar yr eitemau agored.**
5. Ni chaniateir cystadlu ond yn Gymraeg.
6. Disgwylir i'r ymgeiswyr anfon eu henwau i'r Ysgrifennydd erbyn 10fed Ebrill 2025.
7. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus, ond un ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Bydd barn y Pwyllgor yn derfynol.
8. Y Cyfansoddiadau a'r Gwaith Llaw i fod yn llaw'r Ysgrifennydd (ac nid i'w hanfon i'r Beirniaid) erbyn 22ain Mawrth 2025. Rhodder ffugenw yn unig wrth y gwaith gan amgáu enw a chyfeiriad ar wahân.
9. Gellir cael copi o'r beirniadaethau llenyddol cyn 30ain Ebrill 2025, yna fe'u dychwelir ond gwneud cais amdanynt gan anfon amlen addas stampiedig.
10. Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi detholiad o'r cynhyrchion.
11. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.

Gellir cael unrhyw wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at dreuliau yr Eisteddfod. Diolch i Berwyn a Brenda Williams, Gwelfryn am eu rhodd o Gadair yr Eisteddfod; Mrs Ann Jones a theulu'r diweddar Brifardd Moses Glyn Jones.

Argraffwyd gan Wasg Carreg Gwalch